

Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg:

**Hafod-y-Wennol, Uned
Aseu a Thriniaeth**

28 Ebrill 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg.....	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau.....	6
	Safonau Craidd.....	6
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	11
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am fonitro Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Monitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Canolbwynt arolygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu mae AGIC yn ei ddefnyddio i gyflawni arolygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys y canlynol:

- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safon gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl o Uned Asesu a Thriniaeth Hafod-y-Wennol, Hensol ar 28 Ebrill 2015.

Mae Uned Asesu a Thriniaeth Hafod-y-Wennol yn ysbyty anabledau dysgu sy'n cynnwys ward ag wyth gwely sy'n darparu gofal i gleifion â diagnosis deuol o anabledd dysgu a phroblemau iechyd meddwl. Mae Uned Asesu a Thriniaeth Hafod-y-Wennol yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Mae Uned Asesu a Thriniaeth Hafod-y-Wennol yn ysbyty anableddau dysgu a adeiladwyd i'r diben; roedd amgylchedd digynnwrf a hamddenol trwy gydol ein hymweliad.

Roedd yr uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n weddol dda ac yn cynnwys celfi addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd y cleifion hefyd fod y staff yn barod eu cymwynas, ac wedi inni weld dogfennau'r cleifion roedd yn glir bod y cleifion, teuluoedd a'r gofalwyr yn cyfrannu at ofal cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o'r ddogfennaeth statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd ynglŷn â'r broses o gadw cofnodion y gellid eu gwella yn unol â Chod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru.

Mae'n destun pryder inni glywed nad oes neb wedi cael ei recriwtio'n barhaol ar gyfer y swydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ers i'r swydd fynd yn wag.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y mynediad wedi'i ddiogelu gan glo â chod rhifau i rwystro pobl rhag cael mynediad ato heb awdurdod. Yn seiliedig ar benderfyniad clinigol i atal nifer o gleifion wedi'u cadw rhag gadael y ward, roedd angen cloi'r drws o'r tu mewn. Mae hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnod ar gyfer cloi'r drws, ac mae'r bwrdd iechyd yn monitro pa mor aml y mae hyn yn digwydd. Mae'r ward yn arddangos gwybodaeth sy'n esbonio i'r cleifion sy'n cael gadael y ward sut y gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno. Pan fo'r drws ar glo, gall y cleifion adael y ward gan ddefnyddio'r botwm i ryddhau'r clo.

Ar ddiwrnod ein harolygiad dirybudd, roedd yr uned i'w gweld yn lân, ac yn gyffredinol nid oedd annibendod nac aroglau amhleserus neu aroglau clinigol ynddi. Ar y cyfan, roedd digon o ddodrefn, addurniadau a ffitiadau a oedd yn briodol i'r grŵp cleifion hwnnw.

Roedd gan y ward ystafell dawel ger y brif lolfa y gallai'r cleifion fynd iddi. Roedd yr ystafell yn cynnwys teledu, peiriant DVD a pheiriant cryno ddisgiau, yn ogystal â bwrdd a chadeiriau i wneud gweithgareddau. Roedd y soffas yn yr ystafell dawel i'w gweld yn dreuliedig ac roedd angen eu newid. Dywedodd staff wrthym fod dodrefn newydd wedi cael eu harchebu, ond nid oeddent wedi cyrraedd ar y pryd.

Roedd ystafell fach dawel arall ger y ward y gall cleifion ei defnyddio i gyfarfod ag aelodau'r teulu neu ymwelwyr eraill. Roedd hefyd cyfrifiadur yn yr ystafell y gallai'r cleifion ei ddefnyddio.

Roedd gan y cleifion fynediad uniongyrchol at y lolfa gymunedol, ac at ardd gaeedig fawr a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd ardal patio a oedd yn cynnwys meinciau a byrddau; dywedwyd wrthym fod y ward yn darparu gweithgareddau yn yr ardd pan fod y tywydd yn caniatáu.

Roedd gan Hafod y Wennol ystafell i ysmegu ynddi; fodd bynnag, nid oedd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y grŵp cleifion. Yn yr ystafell roedd y ffôn talu roedd y cleifion yn ei ddefnyddio. Er bod yr ystafell yn rhoi preifatrwydd i gleifion wrth iddynt wneud galwadau, nid yw'r ystafell ysmegu yn lleoliad addas iddo. Roedd cleifion hefyd yn gallu ysmegu yn yr ardd, ond nid oedd cysgodfa benodol wedi'i darparu, nac unrhyw le i waredu ar weddillion sigarêts.

Argymhelliad

Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau pa bryd y bydd y celfi newydd ar gael yn yr ystafell dawel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffôn talu'r cleifion mewn lleoliad preifat ac nad yw wedi'i leoli yn yr ystafell ysmegu.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cysgodfa ysmegu a bin priodol i waredu ar weddillion sigarêts.

Diogelwch

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Hafod y Wennol. Mae modd i'r staff gyrchu polisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar y ward a thrwy ddefnyddio system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Ym mhob un o'r manau cleifion, roedd gosodion a ffitiadau'r ysbyty yn rhai heb rwymynnau. Dywedodd y staff eu bod yn cynyddu'r lefelau arsylwi, os oedd angen, i adlewyrchu'r risg y gallai ymddygiad unrhyw gleifion penodol ei hachosi.

Roedd yr holl staff sy'n gweithio yn yr ysbyty wedi derbyn Hyfforddiant Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol¹. Gwelsom staff yn dad-ddwysáu ac yn ailgyfeirio cleifion mewn ffordd urddasol a gofalgwr. Nid yw'r ysbyty yn defnyddio ymwahanu.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd y staff yn cario larymau personol. Fe'n hysbyswyd bod larymau ar gael, ac y byddai'r staff yn derbyn larymau os oedd staff risg clinigol yn ystyried bod eu hangen.

Y tîm amlddisgyblaethol

Mae staff craidd yr ysbyty yn cynnwys dwy nyrs gofrestrdig a thri chynorthwydd nyrsio yn ystod y dydd, ac un nyrs gofrestrdig ac un cynorthwydd nyrsio yn ystod y nos.

Mae'r holl nyrsys cofrestrdig sy'n gweithio yn Hafod y Wennol wedi derbyn hyfforddiant anabledau dysgu. Dywedodd y staff fod y lefelau nyrsio a'r cymysgedd sgiliau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion presennol. Fe'n hysbyswyd bod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar hyn o bryd ar gyfer nyrs i lenwi swydd wag.

Nid yw Hafod y Wennol yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd na staff asiantaeth. Roedd y tîm staff presennol yn yr ysbyty yn gweithio'r rotâu staffio,

¹ Mae Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol yn ddull a ddefnyddir er mwyn deall yr hyn sy'n cynnal ymddygiad heriol unigolyn, a sut i ryngweithio ag ef er mwyn lleihau ei ymddygiadau heriol.

ac roeddent yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion. Os oes diffyg staff, mae'r ysbyty'n defnyddio staff o gyfarwyddiaeth Anabledau Dysgu'r bwrdd iechyd.

Roedd rowndiau ward amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal ddwywaith bob wythnos. Roedd cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos neu bob mis yn ddibynnol ar anghenion gofal ac anghenion adolygu'r cleifion. Wedi inni adolygu nodiadau'r cleifion, roedd yn galonogol gweld bod teuluoedd cleifion, yn ogystal â'u gofalwyr a'u heiriolwyr, yn cael eu cynnwys, a rhoddir ystyriaeth i'w safbwyntiau yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan y cleifion ystafelloedd gwely unigol; fodd bynnag, nid oedd ganddynt gyfleusterau en suite. Roedd toiledau ac ystafelloedd ymolchi ym mhob un o goridorau'r ystafelloedd gwely. Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd eu hunain.

Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, ond gallai'r staff eu hagar pe bai'n rhaid. Roedd ffenestri ystafelloedd gwely'r cleifion yn rhoi preifatrwydd priodol iddynt, ond roedd angen gosod bleindiau newydd yn lle'r bleindiau integredig ychwanegol a oedd wedi eu torri yn Ystafell Wely 1 a'r ystafell ymolchi gyfagos.

Roedd y lloriau yn un o ystafelloedd ymolchi'r ward wedi dechrau datblygu'n anwastad; cawsom ein hysbysu bod hyn yn cael ei adolygu gan y bwrdd iechyd a'i fod wedi bod yn fater parhaus ers i'r uned gael ei chreu.

Roedd cynllun yr ystafelloedd ymolchi'n addas i roi cymorth i gleifion ynddynt, pe bai angen. Roedd gan yr uned offer codi ar gyfer bath a chadair benodol i'r gawod fel y gellid rhoi cymorth i gleifion.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgar a pharchus. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn barod eu cymwynas ac yn garedig.

Roedd yn bleser gennym weld bod cyfleusterau golchi dillad ar y safle, ac roedd y cleifion yn gallu golchi eu dillad gyda chymorth y staff. Fodd bynnag, pe na allai cleifion olchi eu dillad eu hunain, byddai staff yn gwneud hyn drostynt. Mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro hyn er mwyn sicrhau nad yw amser staff nyrsio'n cael ei dynnu oddi ar ofal cleifion tra eu bod yn golchi eu dillad. Roedd yr ystafell golchi dillad wedi'i lleoli i ffwrdd i'r ward, ac roedd staff yn teimlo y byddai 'n fwy addas pe bai mewn ystafell y gellid mynd yn syth ati o'r ward.

Argymhelliad

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau preifatrwydd priodol ar ffenestri lle mae'r bleindiau integredig wedi torri.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad y cyfleusterau golchi dillad er mwyn iddynt fod mewn ystafell addas sy'n uniongyrchol hygyrch ar y ward.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Mae gan y cleifion gynlluniau gweithgareddau a therapi unigol, ac roeddent yn gallu dewis pa weithgareddau a therapiau yr oeddent am eu gwneud bob dydd, ynghyd â set o weithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'u hanghenion penodol a'u galluoedd.

Mae Hafod y Wennol wedi'i lleoli mewn ardal wledig, sy'n galluogi cleifion i fwynhau'r cefn gwlad o'i hamgylch. Mae gan yr ysbyty gerbyd penodol hefyd, er mwyn i staff allu mynd â'r cleifion i'r siopau lleol ac ar deithiau cymunedol sy'n bellach i ffwrdd. Pan oedd yn briodol, roedd y cleifion hefyd yn gallu gadael yr ysbyty gyda'u teulu a/neu eu gofalwyr.

Gofal iechyd cyffredinol

Darperir ar gyfer anghenion iechyd corfforol y cleifion gan feddygon yn Hafod y Wennol. Yn gyffredinol, mae cleifion yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda'u gwasanaethau iechyd corfforol eu hunain, megis meddygon teulu a deintyddion. Fodd bynnag, roedd hefyd gan gleifion fynediad at ddeintydd yn y gymuned yn ôl yr angen, a gall staff gyfeirio cleifion i wasanaethau trin traed.

Mae'r cleifion yn mynd i siopau trin gwallt a siopau barbwr lleol yn y gymuned, ac roedd cynorthwydd nyrsio yn trin gwallt cleifion pe baent yn dymuno hynny.

Bwyd a maeth

Roedd cyfleusterau arlwyio priodol yn yr ysbyty, ac roedd gegin yr ysbyty yn darparu'r prydau bwyd o'r cyflenwad o fwyd oer i'w goginio. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty; yn ogystal, roedd modd i'r staff fod yn hyblyg gyda cheisiadau'r cleifion. Mae gan yr ysbyty bolisi amseroedd bwyd gwarchoddedig.

Roedd gan y cleifion fynediad at amrywiaeth o fyrbrydau y tu allan i amseroedd bwyd, ac roedd ffrwythau ffres a diodydd ar gael iddynt.

Roedd gan yr ysbyty gyfraniadau gan wasanaethau dietegydd a leolir yn Ysbyty Glan Rhyd, er mwyn asesu a monitro'r cleifion. Roedd gan yr ysbyty

gyswllt rheolaidd hefyd â gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith y bwrdd
iechyd.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Roedd pump o gleifion yn derbyn gofal yn Hafod y Wennol, ac roedd pob un ohonynt yn hŷn na 18 oed. Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o gleifion wedi'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwnaethom adolygu sampl o'r ddogfennaeth statudol a gweld ei bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Roedd yn destun pryder inni glywed nad oedd y swydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl a oedd yn gyfrifol am Hafod y Wennol wedi cael ei llenwi yn barhaol ers i'r swydd arbenigol hon fynd yn wag. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod y broses recriwtio ar waith.

Argymhelliad

Gofynnir i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC am y broses recriwtio ar gyfer swydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cadw Cleifion

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth statudol ar gyfer pob un o'r cleifion a gadwyd o dan Adran 2, *Cais ar gyfer Asesiad*², neu Adran 3, *Cais ar gyfer Triniaeth*³. Roedd o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo o dan Adran 12⁴, ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cyfarfod â'r claf o'r blaen⁵.

Nid oedd y meddyg a oedd yn gosod claf o dan y Ddeddf wedi nodi ym mhob achos, ar y ddogfennaeth statudol, y rhesymau pam nad oedd derbyniad anffurfiol i ysbyty yn ffordd briodol o ddarparu gofal. Yn yr achosion hyn, nodwyd na fyddai triniaeth ar gael yn y gymuned, a dylid cyfeirio at ddiffyg galluedd y claf i benderfynu aros yn yr ysbyty. Fodd bynnag, fe fyddai'n briodol i'r meddyg nodi'r casgliad ar y papur cadw, sef nad oedd derbyniad anffurfiol i ysbyty yn briodol.

Ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y dogfennau statudol yn nodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn Hafod y Wennol.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw o dan Adran 2, roedd y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy⁶ ar gyfer pob achos unigol wedi nodi

² Adran 2 – derbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

³ Adran 3 – derbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

⁴ Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel meddyg sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae'r byrddau iechyd lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

⁵ Lle mae hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymhell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf o'r blaen (Adran 12(2) o'r Ddeddf).

⁶ Gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r Ddeddf, a gymeradwywyd gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau dan y Ddeddf.

perthnasau agosaf y claf⁷. Fodd bynnag, nid oedd y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi nodi ar ddogfen statudo⁸ HO2, ym mhob achos, a oedd wedi cysylltu â pherthynas⁹ y claf neu beidio. Dylai tîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl fod wedi nodi'r mater hwn.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer cadw o dan Adran 3, roedd y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy ar gyfer pob claf wedi nodi perthnasau agosaf y claf ac wedi cysylltu â nhw.

Adran 4 – Cais i gael asesiad mewn achos brys¹⁰

Lle roedd cleifion a gafodd eu cadw i ddechrau dan Adran 4 y Ddeddf, gwnaed yr argymhelliad meddygol gan ymarferydd a oedd wedi cwrdd â'r claf o'r blaen, fel y nodir yn Adran 4(3).

Fodd bynnag, er bod y cofnodion yn dweud bod y derbyniad yn un brys ac nad oedd yn ddiogel i aros am ail argymhelliad meddygol oherwydd byddai oedi yn achosi dirywiad yn iechyd y claf, fel y nodir yn Adran 4(2), prin oedd y wybodaeth wedi'i chofnodi gan y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy i ddangos pa ymdrechion a wnaed er mwyn sicrhau ail argymhelliad meddygol yn unol â pharagraff 5.8 y Cod Ymarfer. Roedd yr ymgeisydd ar gyfer pob un o'r achosion o gadw claf wedi gweld y claf o fewn y 24 awr flaenorol, yn unol â'r hyn nodir yn Adran 4(5).

Cafwyd ail argymhelliad meddygol ymhen 72 awr i gadw'r claf o dan Adran 2 y Ddeddf, gan feddyg Adran 12. Nododd fod y claf yn dioddef o anhwylder meddyliol ac mai er budd diogelwch y claf, ac nad oedd y derbyniad anffurfiol yn briodol. Hysbysodd y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy y perthynas agosaf fod y claf wedi cael ei gadw dan Adran 2 yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 5.9 y Cod Ymarfer.

Adran 5 – Cais mewn perthynas â chlaf sydd eisoes yn yr ysbyty¹¹

Lle roedd cleifion wedi cael eu cadw i ddechrau o dan Adran 5(2) y Ddeddf, roedd yn glir bod pob claf yn glaf mewnol ar adeg ei defnyddio. Roedd y cais yn achos pob claf wedi'i weithredu gan ei glinigydd cyfrifol neu gan ddirprwy ei glinigydd cyfrifol, yn unol ag Adran 5(3). Ym mhob achos, cafwyd ail argymhelliad meddygol ymhen 72 awr i gadw'r claf dan Adran 2 y Ddeddf.

⁷ Unigolyn a ddiffinnir gan adran 26 y Ddeddf, sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf mewn perthynas â chlaf y mae'n berthynas agosaf iddo.

⁸ Dogfennaeth statudol sy'n cael ei chwblhau gan y gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wrth wneud cais i gadw claf

⁹ Unigolyn a ddiffinnir gan adran 26 y Ddeddf, sydd â hawliau a phwerau penodol dan y Ddeddf mewn perthynas â chlaf y mae'n berthynas agosaf iddo.

¹⁰ Cais i gadw claf ar gyfer asesu anhwylder meddyliol wedi'i wneud gydag un argymhelliad meddygol yn unig yn cefnogi'r cais mewn achosion brys.

¹¹ Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy'n caniatáu i gleifion mewnol mewn ysbyty gael eu cadw dros dro er mwyn penderfynu a ddylid gwneud cais i'w cadw ai peidio.

Fodd bynnag, ni wnaed cofnod yn nodiadau'r claf ym mhob achos gan y meddyg i nodi ei fod wedi defnyddio Adran 5(2) fel y nodir ym mharagraff 8.15 y Cod Ymarfer .

Argymhelliad

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod achosion o ddefnyddio Adran 5(2) yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Cadw parhaus

Lle roedd cleifion wedi bod yn ddarostyngedig i'r cam o adnewyddu'r cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

Apelio yn erbyn cadw claf

Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawliau i apelio yn erbyn cael eu rhoi o dan gadwad. Roedd yn amlwg pe byddai'r cleifion am apelio i'r Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl, y byddai'r broses yn cael ei dilyn.

Wrth adolygu dogfennau ar gyfer Gwrandawriad Rheolwyr Ysbyty ar gyfer claf roedd ei gyfnod cadw wedi cael ei adnewyddu o dan Adran 20 y Ddeddf, nodwyd bod Gwrandawriad Rheolwyr Ysbyty wedi cael ei gynnal tri mis ar ôl adnewyddu'r cyfnod cadw, ac nid cyn y cyfnod cadw cyfredol, yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 27.11 o'r Cod Ymarfer.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl Wrandawriadau Rheolwyr Ysbyty yn cael eu cynnal cyn bod y cyfnod cadw cyfredol yn dod i ben.

Rhan 132 – darparu gwybodaeth

Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am fod o dan gadwad ac am eu hawliau o dan y Ddeddf. Lle'r oedd angen, pan oedd y cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff, neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r cleifion yn rheolaidd.

Mae eiriolwr iechyd meddwl annibynnol¹² o'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol dynodedig yn mynychu Hafod y Wennol.

Cydsynio i driniaeth

¹² Eiriolwr sy'n annibynnol i'r tîm sy'n darparu gofal y claf sydd ar gael i gefnogi cleifion o dan drefniadau mae angen penodol eu gwneud o dan y Ddeddf.

Roedd cleifion a oedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58¹³ y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir. Roedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth ac Adran 62, Awdurdodi Triniaethau ar Frys, wedi'u cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf, pan oedd yn berthnasol¹⁴.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd y dyddiadau wedi dod i ben ar y tystysgrifau cydsynio i driniaeth ac ar y dogfennau awdurdodi Adran 62 a gadwyd â'r Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaethau; gallai hyn achosi dryswch i'r nyrsys sy'n gweinyddu'r feddyginiaeth. Byddai'n ddoeth i gadw dim ond copïau cyfredol o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth a'r dogfennau awdurdodi Adran 62 gyda'r Siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.

Lle bu'n rhaid i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn¹⁵ (SOAD) awdurdodi tystysgrif cydsynio i driniaeth, cafodd cofnod o'r broses hon ei nodi yn nodiadau'r claf. Fodd bynnag, nid oedd nodiadau'r cleifion yn cynnwys rhestr o'r trafodaethau SOAD â'r ymgynghorwyr statudol yn unol â pharagraff 18.23 y Cod Ymarfer.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau mai dim ond copïau cyfredol o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth a'r dogfennau awdurdodi Adran 62 yn cael eu cadw gyda'r Siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ymgynghorwyr i gyd yn cadw cofnod o'u hymgyngoriad â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) a bod hyn yn cael ei gadw yn nodiadau'r cleifion.

Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17¹⁶

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, gan gynnwys cwblhau terfyn amser neu ddyddiad adolygu. Gwnaethom nodi yn ffeiliau'r cleifion nad oedd ffurflenni awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben wedi'u marcio'n annilys yn glir. Mae'n arfer da i sicrhau bod ffurflenni awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben wedi'u marcio'n annilys.

¹³ Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol mae'r rheolau arbennig yn Adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi, sy'n golygu meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw ar ôl cyfnod cychwynnol o dri mis

¹⁴ Mae Adran 62 yn caniatáu i driniaeth feddygol gael ei rhoi i glaf ar frys mewn rhai amgylchiadau penodol

¹⁵ Meddyg annibynnol a benodir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n rhoi ail farn ynglŷn ag a ddylai rhai mathau o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol gael eu rhoi heb gydsyniad y claf.

¹⁶ Mae caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

Roedd yn amlwg bod teuluoedd a gofalwyr wedi derbyn copïau o ffurflenni awdurdodi absenoldeb pan oedd hyn yn briodol. Cafwyd cofnod yn nodiadau'r cleifion o ba mor llwyddiannus oedd eu habsenoldeb, yn ogystal ag unrhyw broblemau neu bryderon a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o absenoldeb.

Er bod yr ysbyty wedi nodi risgiau posibl tra bod y cleifion ar eu cyfnod absenoldeb, yn ogystal â'r hyn a fyddai'n achosi'r risgiau a'r camau gweithredu y dylai'r staff eu cymryd pe baent yn digwydd, nid oedd llawer o wybodaeth am ba mor debygol oedd y risgiau hyn o ddigwydd.

Argymhelliad

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod terfyn amser neu ddyddiad adolygu wedi ei nodi ar bob ffurflen absenoldeb Adran 17.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen absenoldeb Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n annilys.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.

Cleifion cyfyngedig

Nid oedd unrhyw gleifion wedi'u cadw dan Ran 3 o'r Ddeddf, *Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddeddfryd.*

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Hafod y Wennol yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith iddo gael ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Atodiad A

Monitor'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella
Bwrdd Iechyd: Abertawe Bro Morgannwg
Lleoliad: Hafod Y Wennol
Dyddiad yr arolygiad: 28 Ebrill 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol r	Amserlen
Safonau Craidd				
7	Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau pa bryd bydd y celfi newydd ar gael yn yr ystafell dawel.	Mae hyn wedi cael ei gyflwyno i dderbyn cyllid drwy'r Rhaglen Gyfalaf. Yn aros am gadarnhad.	Vanessa Bowkett	
7	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffôn talu'r cleifion mewn lleoliad preifat ac nad yw wedi'i leoli yn yr ystafell ysmegu.	Cadarnhaodd staff fod y ffôn ar gael yn yr ystafell dawel ac y bydd trefniadau amgen ar y gweill i bobl sy'n ysmegu.	Denise Broomfield	

7	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cysgodfa ysmegu a bin priodol i waredu ar weddillion sigarêts.	Cadarnhaodd staff fod y ffôn ar gael yn yr ystafell dawel ac y bydd trefniadau amgen ar y gweill i bobl sy'n ysmegu.	Denise Broomfield	
9	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau preifat priodol ar waith ar ffenestri lle mae'r bleindiau integredig wedi torri.	Mae angen gosod bleindiau newydd.	Rheolwr Ystadau	Gorffennaf 2015
9	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad y cyfleusterau golchi dillad er mwyn iddynt fod mewn ystafell addas sy'n uniongyrchol hygyrch ar y ward.	Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r argymhelliad, ond nid oes opsiwn amgen ar gael.		Cwblhawyd
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl				
11	Gofynnir i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC am y broses recriwtio ar gyfer swydd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Penodwyd rhywun i'r swydd, a disgwylir y bydd y person hwnnw yn dechrau yn y swydd hon ym mis Mehefin 2015.		Mehefin 2015
13	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod achosion o ddefnyddio Adran 5(2)	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr		Cwblhawyd

	yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Cod Ymarfer Cymru, paragraff 8.15	a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		
13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl Wrandawiadau Rheolwyr Ysbyty yn cael eu cynnal cyn bod y cyfnod cadw cyfredol yn dod i ben. Cod Ymarfer Cymru, paragraff 27.11	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhawyd
13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau mai dim ond dystysgrifau cydsynio i driniaeth ac awdurdodiadau Adran 62 sy'n gyfredol yn cael eu cadw gyda'r Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaethau.	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhawyd
13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ymgynghorwyr i gyd yn cadw cofnod o'u hymgyngoriad â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) a bod hyn yn cael ei gadw yn nodiadau'r cleifion. Cod Ymarfer Cymru, paragraff 18.23.	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhawyd

15	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod terfyn amser neu ddyddiad adolygu wedi ei nodi ar bob ffurflen absenoldeb Adran 17.	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhawyd
15	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen absenoldeb Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n annilys.	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhawyd
15	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.	Cwblhawyd Anfonwyd hysbysiad at ymgynghorwyr a rheolwyr, i'w monitro yn ystod archwiliad cyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhawyd